

CYMDEITHAS TAI WALES & WEST

COMISIYNYDD Y GYMRAEG – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Adolygwyd a chymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg (CIG) Tai Wales & West (WWH) gan Gomisiynydd y Gymraeg (CyG) ym mis Chwefror 2023. Roedd y CIG diwygiedig yn cynnwys mân newidiadau gweinyddol er mwyn adlewyrchu maint a siâp presennol WWH, yn ogystal â diweddarau manylion cyswllt. Mae'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd ag ef wedi cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu blynyddol, sydd ar gael yn Atodiad 1, er mwyn cynorthwyo gyda gweithgarwch darparu, cydymffurfio a monitro yn y dyfodol.
- 1.2 Mae gofyn i bob cymdeithas tai yng Nghymru ddarparu diweddariad blynyddol i CyG. Mae'r diweddariad blynyddol yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Chwefror 2023. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr holl weithgareddau ar draws y Grŵp.
- 1.3 Mae'r Gymdeithas yn parhau i gynnal ei hymrwymiad i'r iaith Gymraeg trwy ddarparu gwasanaethau a chyfathrebu dwyieithog i breswylwyr. Bydd y gweithgarwch presennol o gasglu dewisiadau iaith yng ngorllewin Cymru yn sicrhau bod preswylwyr yn cael deunydd cyfathrebu yn eu dewis iaith yn y dyfodol. Mae'r Gymdeithas yn annog defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y Gymdeithas hefyd.

2.0 Sgiliau Cymraeg

- 2.1 Ar hyn o bryd, mae 214 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn y Gymdeithas, ac mae'r Gymraeg yn famiaith 83 o'r rhain. Yn ogystal, ceir sawl aelod Bwrdd y mae lefel eu sgiliau Cymraeg yn amrywio.
- 2.2 Mae pob aelod o staff yn y Gymdeithas wedi cwblhau hunanasesiad o'u sgiliau Cymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Cesglir gwybodaeth am ruglder cyflogeion newydd fel rhan o'u harchwiliadau cyn cychwyn cyflogaeth. Cofnodir sgiliau llafar ac ysgrifenedig ar wahân ar system AD y Gymdeithas, sef Cascade. Trwy gasglu'r data mewn porth canolog, gall staff ddiweddarau lefelau rhuglder wrth iddynt newid.
- 2.3 Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o'r holiadur hunanasesu yn ystod 2021 ac ystyriwyd gweithredu fersiwn wedi'i addasu o fframwaith Gymdeithas Profwyr Iaith Ewrop (ALTE), Mae CyG yn dymuno gweld mwy o gysondeb wrth gofnodi sgiliau Cymraeg cyflogeion er mwyn hwyluso'r broses o gasglu data am y gweithlu dwyieithog ar lefel genedlaethol ac mae wedi paratoi cyngor ynghylch sut i wneud hyn yng nghanllaw cyngor Arfer Da wrth Recriwtio CyG. Yn unol ag argymhellion yn y canllaw Arfer Da, bydd y Gymdeithas yn mabwysiadu'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd (CEFR). Mae'r gwaith i ddatblygu a gweithredu fframwaith CEFR ar gyfer cyflogeion newydd a chyflogeion presennol yn parhau, gyda'r nod o'i weithredu ar gyfer yr holl staff erbyn mis Hydref 2023.
- 2.4 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, Cymraeg 2050, yn nodi'r weledigaeth er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n cynnwys y targed o ddyblu'r defnydd dyddiol a wneir o'r iaith Gymraeg yn ystod yr un cyfnod hefyd, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Er mwyn cynorthwyo

ymrwymiad y Gymdeithas i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a chynorthwyo wrth ddatblygu, gweithredu a monitro CIG a chynllun gweithredu y Gymdeithas, hysbysebwr swydd Graddedig Cymraeg Datblygu ein Gweithlu ein Hunain ar hyn o bryd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynnig cymorth wrth gydlynw'r gwasanaeth cyfieithu hefyd, gan gynorthwyo gyda gweithgarwch mentora a gwasanaethau teleffoni trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.0 Hyfforddiant Cymraeg

- 3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd wyth aelod o staff wedi dechrau dysgu Cymraeg ar gyrsiau 'Cymraeg Gwaith' ac roedd dau ddysgwyr newydd wedi cychwyn ar ddewis deuddeg mis 'Say Something in Welsh' (SSiW).
- 3.2 Mae nifer o aelodau Bwrdd yn dysgu Cymraeg o hyd, gan ddefnyddio ap SSiW a mynychu dosbarthiadau.
- 3.3 Mae WWH wedi parhau i gynorthwyo dysgu a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg trwy gyfrwng yr ap ar-lein. Mae'r cwrs iaith ar-lein, sy'n addo y bydd pob dysgwyr ymroddedig yn siaradwyr Cymraeg hyderus cyn pen chwe neu 12 mis, yn cynnwys tasgau ar-lein wythnosol a galwadau fideo grŵp. Cychwynnodd y peilot ym mis Awst 2018 ac fe'i ariannir gan WWH.
- 3.4 Mae 18 aelod o staff wedi cofrestru ar SSiW ar hyn o bryd. Yn ystod 2022, yn yr adborth a gafwyd, nodwyd bod y rhan fwyaf wedi oedi eu dysgu gan nodi ei bod wedi bod yn anos dysgu, yn rhannol oherwydd newidiadau i arferion gwaith ac ymrwymadau gofalu. Yn ystod 2023, bydd WWH yn adolygu ac yn trafod dewisiadau dysgu gyda phob aelod o staff unigol er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o ailgychwyn eu taith dysgu Cymraeg.
- 3.5 O ganlyniad i adborth a gafwyd gan ddysgwyr yn ystod 2021/2022, ymrwymodd WWH i Raglen Cymraeg Gwaith yn ystod 2022 er mwyn cynnig adnoddau dysgu ychwanegol ac amrywiol. Cynlluniwyd y rhaglen i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle trwy gynnig hyfforddiant hyblyg, perthnasol ac wedi'i ariannu yn llawn yn ychwanegol i gynnig modiwlau ar gyfer sectorau penodol, megis tai. Yn ystod 2022/2023, cofrestrodd wyth dysgwyr ar y rhaglen a chynhelir y gwaith i gasglu a gwerthuso adborth yn ystod 2023. Hyrwyddwyd yr holl gyfleoedd dysgu o fewn Rhaglen 'Cymraeg Gwaith' ac SSiW yn ystod Gŵyl Grŵp WWHG ym mis Mawrth 2022. Yn ogystal, hyrwyddwyd yr holl gyfleoedd dysgu, gan gynnwys 'Cwrs Rhagarweiniol Croeso i Gymraeg Gwaith' er mwyn meithrin sgiliau Cymraeg cwrteisi, yn y cyhoeddiadau mewnol yn ystod 2022. Yn ystod sgyrsiau gyda staff newydd, caiff dysgu Cymraeg ei hyrwyddo, ac anogir staff i droi at y dudalen Dysgu Cymraeg benodedig.
- 3.6 Er mwyn hyrwyddo gweithle dwyieithog, mae teilsen 'Dysgu Cymraeg' yn parhau i fod mewn man amlwg ar dudalen flaen y fewnwyd, ac mae'n cynnig manylion yr holl gyfleoedd dysgu a chymorth gan gynnwys gwybodaeth am 'Say Something in Welsh' a 'Chymraeg Gwaith'. Caiff teilsen 'Dysgu Cymraeg' a'r dudalen Gymraeg eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn cofnodi adnoddau a chyfleoedd newydd, ac mae'n cynnwys rhestr o gyfarchion ac ymadroddion er mwyn cynorthwyo gyda'r dysgu. Yn ogystal, mae'n nodi manylion yr holl siaradwyr Cymraeg yn y Gymdeithas, sy'n cynorthwyo gyda gweithgarwch mentora anffurfiol, adnoddau defnyddiol, dyddiadau a manylion digwyddiadau Cymreig diwylliannol mewnol ac allanol, ymadrodd yr wythnos, templed dwyieithog ar gyfer

negeseuon e-bost pan fydd rhywun allan o'r swyddfa a gweithgareddau a chyfluoedd i gynorthwyo a meithrin lefelau hyder wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

- 3.7 Yn ystod 2022/2023, ffurfiolwyd sesiynau mentora wythnosol 'Coffi a Sgwrs' er mwyn cynorthwyo pobl i ddysgu Cymraeg, ac fe'u hyrwyddwyd yn ystod Gŵyl Grŵp WWH. Yn ystod 2022/2023, mae naw aelod o staff ar draws y Grŵp wedi manteisio ar y cyfle i ymarfer eu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfarfodydd hyn. Bu'r adborth gan y staff a fynychodd yn gadarnhaol a chynhelir adolygiad ar hyn o bryd er mwyn archwilio sut i gynyddu cyfranogiad ar draws y Grŵp.

4.0 Hyrwyddo'r iaith Gymraeg

- 4.1 Yn ystod y cyfnod y rhoddir sylw iddo yn yr adroddiad hwn, gwelwyd sawl achos lle y mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo yn fewnol, ynghyd â chyhoeddiadau i hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol niferus megis Dydd Gŵyl Dewi, Santes Dwynwen, Diwrnod Rhyngwladol Dylan Thomas, yr Eisteddfod Genedlaethol a Dydd Miwsig Cymru. Dathlwyd Diwrnod "Shwmae Su'mae" gyda chinio Cymreig a gweithgarwch hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, roedd WWH wedi cymryd rhan yn y Diwrnod Hawliau Cymraeg cenedlaethol er mwyn dathlu a hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan WWH ac er mwyn amlygu hawliau pobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth ddelio â WWH. Gwelwyd cyhoeddiadau mewnol misol yn adran 'A wyddoch chi' ar Sharepoint yn parhau, a oedd yn cynnwys ffeithiau diwylliannol dwyieithog, hyrwyddo digwyddiadau ar-lein megis Cymunedau Digidol Cymru, sesiynau sgiliau digidol am ddim, a gwybodaeth ynghylch hanes Cymru a thraddodiadau Cymreig. Defnyddir y cyhoeddiadau mewnol hefyd er mwyn hyrwyddo poster ymadroddion Menter Iaith, er mwyn cynorthwyo gyda'r dysgu. Yn ystod 2022/2023, gwelwyd y deunydd hwn a gafodd ei bostio, 1,200 gwaith.
- 4.2 Mae WWH yn parhau i gefnogi digwyddiadau a datblygu gwaith a wneir mewn partneriaeth â Menter Iaith a'r sector addysg megis Mudiad Meithrin ac Ysgolion Uwchradd.
- 4.3 Hyrwyddwyd yr iaith Gymraeg yn y ffyrdd canlynol hefyd:-
- Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg trwy ddefnyddio brand Iaith Gwaith i ddynodi siaradwyr Cymraeg. Caiff y troedyn e-bost sy'n nodi y croesawir gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ei gynnwys yn negeseuon e-bost allanol a mewnol pob siaradwr Cymraeg rhugl. Yn ogystal, gall y rhai sy'n dysgu Cymraeg nodi hynny mewn negeseuon e-bost mewnol, sy'n cynorthwyo ac sy'n annog defnydd o'r iaith Gymraeg pan fyddant yn gwneud gwaith rhith. Yn ogystal, cynigir bathodynau a laniardiau Iaith Gwaith i'r holl staff y byddent yn hapus i eraill gychwyn sgysiau gyda nhw yn Gymraeg.
 - Roedd Gŵyl Grŵp WWH 2022 yn cynnwys sesiwn ddwyieithog Gymraeg a fynychwyd gan dros 20 o staff. Rhoddodd y sesiwn drosolwg o arferion WWH, diweddariad mewn perthynas â statws cyfredol Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector, amlygwyd y dogfennau allweddol megis Cynllun yr Iaith Gymraeg, Protocolau'r Gymraeg a gweithdrefnau Cyfieithu, gwybodaeth am weithgareddau WWH mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, ac yn olaf, hyrwyddwyd cyfluoedd i ddysgu Cymraeg gan gynnwys SSiW.
 - Gweithiodd WWH mewn partneriaeth i ddarparu a chynorthwyo nifer o ddigwyddiadau cymunedol dwyieithog, a oedd yn cynnwys:-

- cyfarfodydd cymunedol mewn tri datblygiad newydd ym Maenclochog, Eglwyswrw a Chlos y Porthmyn, Abergwili;
 - cystadleuaeth i breswylwyr allu ennill tocynnau teulu er mwyn cael mynediad am ddim i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron;
 - prosiect Bocs Chwarae yr haf (bocs storio yn llawn gweithgareddau hwyliog) ar gyfer y teulu, a ddarparwyd gan staff sy'n siarad Cymraeg mewn 9 ystad, a oedd wedi cynnig y cyfle i chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg;
 - roedd staff wedi gwirfoddoli fel stiwardiaid yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron gan ddefnyddio eu 'Diwrnod Rhoi Rhywbeth yn Ôl';
 - bu staff yn gwirfoddoli yng Ngŵyl Canol Dre y Fenter Iaith yng Nghaerfyrddin,
 - cynorthwywyd ysgolion Cymraeg a dwyieithog gyda digwyddiadau sy'n ymwneud â gyrfaeod h.y., cynorthwywyd gyda chyfweiliadau ffug (wrth i staff ddefnyddio eu 'Diwrnod Rhoi Rhywbeth yn Ôl') yn Ysgol Calon Cymru, Ysgol Dyffryn Taf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf; a
 - gweithiwyd gyda chontractwyr a chyflenwyr WWH i fynychu Gŵyl Gyrfaoedd i Ysgolion ar draws Gogledd Cymru a mynychu ymweliadau safle.
- Noddodd WWH sawl grŵp yn ystod y cyfnod adrodd, er mwyn cynorthwyo wrth ddarparu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Gwariodd WWH ychydig dros £6,500 ar y gweithgareddau canlynol:-
 - noddi Gŵyl Canol Dre y Fenter Iaith yng Nghaerfyrddin;
 - prif noddwr Twrnamaint Pêl-droed Ysgolion Sir Gaerfyrddin (digwyddiad Cymraeg/Dwyieithog gan bod nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn mynychu) a noddi cit Academi;
 - noddi citiau hyfforddi a phêl-droed dan 15 Urdd Cymru yng Nghaerdydd;
 - cynorthwyo Cylch Meithrin Nant Lleucu i brynu offer TGCh er mwyn cynorthwyo a gwella sgiliau Cymraeg y plant trwy wyllo/gwranddo ar yr iaith Gymraeg trwy gyfrwng platfformau digidol; a
 - chafodd Rubicon Dance gymorth i ddarparu gweithgareddau dawn Cymraeg ar gyfer pobl dros 60 oed, darparu gweithdai cyn ysgol a Gweithgareddau Clwb Gwyliau.

5.0 Cyfathrebu yn Gymraeg

- 5.1 Mae nifer o fach o breswylwyr (95 at ei gilydd) wedi datgan eu bod yn dymuno cyfathrebu gyda'r Gymdeithas yn Gymraeg ac maent wedi nodi eu dewisiadau mewn perthynas â chyfathrebu ysgrifenedig, ar lafar neu'r ddau. Yn ogystal, mae 1,238 o breswylwyr yn cael copïau dwyieithog o In Touch.
- 5.2 Cesglir gwybodaeth o hyd am ddewis iaith fel rhan o weithgarwch proffilio preswylwyr. Cedwir data ynghylch dewis iaith 67% o breswylwyr ac mae modd diweddar hwn yn hawdd trwy Resco, yr ap gweithio symudol, neu ei ddiweddarau yn uniongyrchol yng nghronfa ddata Dynamics. Mae dewis iaith ar gael i'r holl staff ei weld, a bydd yr ohebiaeth gan WWH yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â dewis y preswilydd pan fo'r wybodaeth hon wedi cael ei chasglu. Anfonir fersiwn dwyieithog o'r holl ohebiaeth yng ngorllewin Cymru, a bydd hynny yn parhau nes caiff gwybodaeth am ddewis llawn y preswylwyr hyn ei sicrhau. Mae ymarfer i goladu gwybodaeth am ddewis iaith yng ngorllewin Cymru yn

parhau. Hyd yn hyn, cysylltwyd â dros 500 o breswylwyr a chofnodwyd eu dewis iaith, ac mae llythyr wedi cael ei anfon er mwyn cael gwybod dewis iaith yr holl breswylwyr sy'n weddill.

- 5.3 Mae WWH yn parhau i groesawu galwadau a chyfathrebu yn Gymraeg. Pan fydd pobl yn ffonio prif rif ffôn WWH, bydd y neges gyntaf yn cynnig dewis iaith i bobl. Caiff pob un sy'n dewis Cymraeg eu cyfeirio at staff y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Mae cyfanswm y galwadau sy'n gofyn am wasanaeth Cymraeg yn dychwelyd i'r niferoedd a welwyd cyn y pandemig, a chafwyd 1153 o alwadau yn ystod 2022/2023 o'i gymharu â 759 yn ystod 2022/2021. Mae'r galwadau Cymraeg yn 1.13% o'r holl alwadau a geir yn ystod oriau swyddfa. Cwblhawyd y prosiect i adolygu gwasanaethau teleffoni Cymraeg ac mae datrysiadau er mwyn delio â galwadau Cymraeg a wneir rhwng 17:00 a 18:00 yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.
- 5.4 Mae WWH yn manteisio ar wasanaeth cyfieithwyr Cymraeg proffesiynol, yn ogystal â defnyddio staff dynodedig sy'n ymateb ac sy'n blaenoriaethu unrhyw waith yn unol ag anghenion y Gymdeithas. Gwneir yr holl waith prawfddarllen yn fewnol gan wahanol gyfieithydd, sy'n sicrhau bod pob darn o waith yn gyson, ac y defnyddir terminoleg safonol. Adolygwyd y weithdrefn gyfieithu, a gyflwynwyd ar ôl cyhoeddi dogfen gynghori CyG, 'Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb' yn ystod 2022, ac mae ar gael ar fewnwyd y staff. Mae cyhoeddi dogfen gynghori CyG wedi arwain hefyd at y cam o sicrhau meddalwedd cof cyfieithu Cyfieithu Cymru. Mae'r Uned Technolegau Iaith ym Mhrifysgol Bangor wedi cychwyn ar y broses o ddatblygu'r platfform ar gyfer y Gymdeithas, a rhagwelir y caiff ei gweithredu yn yr haf ar ôl rhoi hyfforddiant i'r staff a chynnal adolygiad o'r gweithdrefnau cyfieithu.
- 5.5 Mae cynnwys gwefan WWH yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a bydd yn parhau i fod yn hollol ddwyieithog ac yn addas i'w weld ar ffôn symudol. Yn ystod 2022/2023, gwelwyd y tudalennau Saesneg bron 283,000 gwaith, a gwelwyd y tudalennau Cymraeg bron i 1,900 gwaith, o'i gymharu gydag ychydig dros 449,000 (Saesneg) gwaith a 3,600 (Cymraeg) gwaith yn 2021/2022. Y dudalen a welwyd amlaf yn yr iaith Gymraeg oedd y dudalen Cysylltu â Ni (142 gwaith), a ddilynwyd gan Chwilio am Gartref (106 gwaith) ac Amdanom Ni (91 gwaith). Mae dogfen newydd CIG a gymeradwywyd yn ddiweddar ac Adroddiad Diweddariad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gael ar y wefan. Mae'r Gymdeithas yn defnyddio nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol hefyd gan gynnwys Facebook, Instagram a Twitter er mwyn rhannu negeseuon corfforaethol, newyddion a swyddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 5.6 Mae'r protocolau mewnol ac allanol am yr iaith Gymraeg wedi bod mewn grym er mis Medi 2017, ac fe'u hadolygwyd yn 2023. Mae'r protocolau, sydd ar gael ar fewnwyd y staff, yn cynnig arweiniad ynghylch sut y mae WWH yn darparu gwasanaethau Cymraeg yn fewnol ac yn allanol. Mae'r protocolau yn datblygu'r CIG a gymeradwywyd, a gwneir mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau mewnol ac allanol. Mae'r holl arwyddion yn swyddfeydd WWH yn ddwyieithog.
- 5.7 Yn dilyn adolygiad o'r rhestr gyfeirio hunan-reoleiddio a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan CyG, mae nifer y swyddi newydd a gwag yn ystod y flwyddyn adrodd wedi cael eu cynnwys yn niweddariad blynyddol 2022/2023. Rhwng mis Mawrth 2022 a mis Chwefror 2023, hysbysebwyd 79 o swyddi newydd neu wag, a hysbysebwyd y rhain oll gyda theitlau swydd dwyieithog. Roedd pob un yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol ym mhroffil y rolau ac

roedd un rôl yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys gofyniad penodol am yr iaith Gymraeg. Caiff geirfa wedi'i chyfieithu, sy'n cynnwys yr holl rolau presennol ac ymadroddion a thermau ar gyfer hysbysebion recriwtio, ei diweddarau yn rheolaidd ac mae ar gael ar y dudalen fewnol am yr iaith Gymraeg. Cynhelir adolygiad o'r arferion cyfredol mewn perthynas â hysbysebu swyddi gwag ar wefan y Gymdeithas yn ystod 2023 er mwyn sicrhau y caiff dull gweithredu cyson ei fabwysiadu.

6.0 Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod.

7.0 Diweddariad am weithredu Safonau'r Gymraeg

Oedwyd y rhaglen o baratoi safonau yn ystod 2018-19 o ganlyniad i'r cam o ail-archwilio deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ac o ganlyniad i bandemig Covid 19, a gydag adnoddau ail-flaenoriaethu LIC, bu oedi pellach. Mae LIC a CyG wedi gweithio mewn partneriaeth i leihau'r rhwystrau wrth osod Safonau'r Gymraeg, gan symleiddio'r broses er mwyn gweithredu safonau heb wanhau eu heffaith ac maent wedi ymrwymo i ddechrau gweithredu'r safonau ar gyfer cymdeithasau tai yn ystod y tymor cyfredol hwn.

Bydd Comisiynwyr y Gymraeg yn gofyn i gymdeithasau tai adolygu'r cyflwyniadau a wnaethpwyd yn 2015 dros y 18 mis nesaf, a'u hail-gyflwyno. Rhagwelir y bydd hyn yn symud y Gymdeithas ymlaen wrth weithredu Safonau'r Gymraeg.

8.0 Cyfathrebu a chynllun gweithredu Comisiynydd y Gymraeg

Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion na diwygiadau ar ôl cyflwyno adroddiad monitro blynyddol a chynllun gweithredu 2021/2022 i CyG. Os bydd y Bwrdd yn ei gymeradwyo, cyflwynir yr adroddiad monitro a'r cynllun wedi'i ddiweddarau yn [Atodiad 1](#) i CyG yn y ffordd arferol. Fel yr adroddwyd uchod, mae'r CIG a adolygwyd ac a gymeradwywyd o'r newydd ar gael ar wefan WWW a chaiff ei hyrwyddo yn fewnol yn fuan.

9.0 Argymhellion

ARGYMHELLIR bod y Bwrdd: -

- i. yn nodi'r adroddiad hwn; ac yn
- ii. cymeradwyo'r cynllun gweithredu yn [Atodiad 1](#).

Alex Stephenson
Cyfarwyddwr Gweithredol (Strategaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau)

20 Mawrth 2023